| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **23 Mehefin 2025** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith** |
| **AWDUR:** | **Nia Haf Lewis a Llywela Haf Owain**<br>**Ymgynghorwyr Iaith** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymhelliad i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad** |

**1 CEFNDIR**

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "l*unio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*"

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - *i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - *ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - *iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - *iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2025, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2025.

## 2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD

2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- 99.1% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
- 90% o staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd
- 570 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn gyda sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

2.2 Rhoddir gwybodaeth hefyd am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella cydymffurfiaeth efo'r Safonau gan gynnwys hyfforddiant i staff. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai o'r heriau y bydd yr Uned Iaith a Chraffu a gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.

## 3 ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol,
- cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, a:
- argymell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2025.